

Rhys Hughes  
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc/  
Director of Education, Skills and Young People

CYNGOR SIR YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL  
Council Offices  
LLANGEFNI  
Ynys Môn - Anglesey  
LL77 7TW

ffôn / tel: (01248) 752901 ffacs

Gofynnwch am - Please ask for: Carol Snowden  
ffôn / tel (01248 752914)

E-Bost - E-mail: [cvsed@ynysmon.gov.uk](mailto:cvsed@ynysmon.gov.uk)  
Ein Cyf - Our Ref. llythenwebu/YUB/09/20  
Eich Cyf - Your Ref.

## SWYDDOGOL I SYLW RHIENI DISGYBLION YSGOL UWCHRADD BODEDERN

### Medi 2020

Annwyl Riant

### ETHOL CYNRYCHIOLWYR RHIENI AR CORFF LLYWODRAETHU YSGOL UWCHRADD BODEDERN

Mae angen **TRI** cynrychiolydd rhieni i weithredu ar Gorff Llywodraethu'r Ysgol. Gall unrhyw riant (neu bersonau sydd â Chyfrifoldeb Rhiant yn ôl Ddeddf Plant 1989) a sydd â phlentyn yn yr ysgol sefyll etholiad i weithredu ar y Corff Llywodraethol, a phleidleisio yn yr etholiad. Un bleidlais a roddir i riant faint bynnag o blant sydd ganddo/ganddi yn yr ysgol. Rhoddir pleidlais ar wahân i fam a thad a phersonau sydd â Chyfrifoldeb Rhiant yn ôl Ddeddf Plant 1989.

Mewn rhai amgylchiadau nid yw unigolion yn gymwys i wasanaethu fel llywodraethwr, er enghraifft pobl sy'n fethdalwyr neu bobl sydd yn ystod y 5 mlynedd flaenorol wedi eu dedfrydu i 3 mis neu ragor yn y carchar (boed hynny'n ohiriedig neu beidio). Gellir cael mwy o wybodaeth am y cyfyngiadau hyn drwy gysylltu â phennaeth yr ysgol.

Etholir y cynrychiolwyr fel â chanlyn:-

1. **Enwebiadau** - Cewch enwebu eich hun os dymunwch gan ddefnyddio'r ffurflen amgaeedig a'i dychwelyd i sylw'r Pennaeth. Dylai'r enwebiadau fod i law erbyn **12.00 hanner dydd, Dydd MERCHER 07/10/20.**
2. **Pleidleisio** - Rhestrir yr holl enwebiadau ar y papur pleidleisio a rhoddir papur pleidleisio (wedi'i rhifo) i bob riant. Anfonir y papur pleidleisio at rieni mewn amlen heb ei selio trwy law'r disgyblion, a dylid ei ddychwelyd yn yr amlen, wedi ei selio erbyn y dyddiad a nodir arno i'r Ysgol. Bydd yr etholiad yn gyfrinachol a'r pleidleisiau yn cael eu cyfrif ym mhresenoldeb person diduedd.
3. **Cynrychiolwyr** - Hysbysir rhieni pwy yw'r cynrychiolwyr a etholir, a byddant ar y corff llywodraethol am **bedair blynedd**, oni bai eu bod yn ymddiswyddo yn y cyfamser.

Os dymuna unrhyw riant gael mwy o wybodaeth am swyddogaeth rhieni/llywodraethwyr, gellir cael manylion pellach gan Mrs. Carol Snowden, Swyddog Gweinyddol, Adran Gwasanaeth Dysgu.

Gyda diolch am eich cydweithrediad.

Yn gywir



**RHYS H HUGHES**  
**CYFARWYDDWR ADDYSG, SGILIAU A PHOBL IFANC**